

## GRUFFYDD ap RHYS (c. 1090 - 1137) tywysog Deheubarth

**Enw:** Gruffydd ap Rhys  
**Dyddiad geni:** c. 1090  
**Dyddiad marw:** 1137  
**Priod:** Gwenllian ferch Gruffudd  
**Plentyn:** Nest ferch Gruffydd ap Rhys  
**Plentyn:** Gwladus ferch Gruffydd  
**Plentyn:** Maredudd ap Gruffudd ap Rhys  
**Plentyn:** Rhys ap Gruffydd  
**Plentyn:** Cadell ap Gruffydd  
**Plentyn:** Anarawd ap Gruffydd  
**Rhiant:** Gwladys ferch Rhiwallon ap Cynfyn  
**Rhiant:** Rhys ap Tewdwr  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** tywysog Deheubarth  
**Maes gweithgaredd:** Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig  
**Awdur:** Thomas Jones Pierce

Mab [Rhys ap Tewdwr](#) a Gwladus, merch [Rhiwallon ap Cynfyn](#). Pan dorrodd hen frenhiniaeth y De i lawr ar farw [Rhys ap Tewdwr](#) yn 1093, aethpwyd â'r aer, Gruffydd, nad oedd eto namyn plentyn, i Iwerddon, lle y cafodd gartref a lloches yn ystod ei blentynod a thra yr ydoedd yn tyfu i fod yn ddyn. Pan ddychwelodd yn 1113 amharwyd ar gymorth gwlatgar ei gyfoedion ieuanc gan agwedd ofnus a gofalus rhai personau o awdurdod yn y wlad nad oedd eto'n teimlo y dylid gwrthsefyll teyrnasiad y Normaniaid. Ymhlith y personau hyn yr oedd [Gruffydd ap Cynan](#), a oedd yn barod i drosglwyddo ei gâr ieuanc i Harri I pan geisiodd hwnnw, sef Gruffydd ap Rhys, loches yng Ngwynedd. Yr oedd y safiad gwrthwynebol a gyrhaeddodd ei uchafbwynt yn y gwrthryfel yn 1116 yn rhwym o fethu yn ei amcan. Serch hynny daeth Gruffydd ap Rhys i delerau â Harri a rhoddydd iddo dir yng nghymwd Caeo. Oddigerth am gyfnod byr yn 1127 pryd y bu'n alltud yn Iwerddon am yr eiltro, ymddengys i Gruffydd dreulio bywyd tawel yn y Deheubarth hyd ar ôl marw Harri. Yno, y mae'n ddiau, y ganed [Maredudd](#) a [Rhys](#), ei feibion o [Gwenllian](#), merch [Gruffydd ap Cynan](#); y mae'n debyg mai meibion o uniad cynharach oedd [Anarawd](#) a [Chadell](#). Cymerth ran flaenllaw yn y gwrthryfel a ymledodd trwy Gymru pan fu Harri farw ac yr oedd yn bresennol ym mrwydr bwysig Crug Mawr, 1136. Bu farw y flwyddyn wedyn; yr oedd [Gwenllian](#), ei wraig nodedig, wedi marw o'i flaen. Ei fab ieuengaf, [Rhys](#), a gafodd y gwaith o ail-sefydlu ffortiwn y teulu.

### Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

### Ffynonellau

J. E. Lloyd, *[A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest \(London 1911\)](#)*, Cyf. I

J. E. Lloyd, *[A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest \(London 1911\)](#)*, Cyf. II

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Gruffydd ap Rhys](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q2705901](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

